Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council




# Polisi Digwyddiadau Castell-nedd Port Talbot

## Ebrill 2024

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **01.** » | Cyflwyniad | 3 |
| **02.** » | Nod | 4 |
| **03.** » | Datganiad Polisi Digwyddiadau | 5 |
| **04.** » | Rolau a Chyfrifoldebau | 6 |
| **05.** » | Digwyddiadau a Ganiateir ar Dir y Cyngor | 9 |
| **06.** » | Polisi Ffilmio a Dronau | 14 |
| **07.** » | Polisi Ceisiadau, Cymeradwyo a Gwrthod Digwyddiadau | 15 |
| **08.** » | Polisi Codi Tâl | 22 |
| **09.** » | Polisi Iechyd a Diogelwch Digwyddiadau | 26 |
| **10.** » | Polisi Amgylcheddol | 32 |
| **11.** » | Polisi Datblygu a Chefnogi Digwyddiadau | 33 |
| **12.** » | Digwyddiadau a Drefnir gan y Cyngor | 33 |
| **13.** » | Gofynion Rheoleiddiol Eraill ac Arfer Gorau | 34 |
| **14.** » | Cysylltu â'r Tîm Digwyddiadau | 37 |

# 01. Cyflwyniad

Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot (y cyngor) yn sylweddoli bod rhaglen amrywiol o ddigwyddiadau awyr agored a reolir yn dda yn gallu cynnig gwerth a budd i gymunedau lleol, preswyl a busnes a chyfrannu at amgylchedd diwylliannol bywiog ac economi weithredol, lewyrchus a chynhwysol.

Mae polisi digwyddiadau'r cyngor yn cyfeirio'n bennaf at ddefnyddio tir sy'n eiddo i ni ac a reolir gennym ni i gynnal digwyddiadau, gan gynnwys:

- Unrhyw barc, gardd, neu fan agored cyhoeddus.
- Unrhyw briffordd gyhoeddus, meysydd parcio cyhoeddus, mannau dinesig/canol trefi.
- Glan môr Aberafan.

Mae'r Polisi hefyd yn berthnasol i'r holl ddigwyddiadau awyr agored yn ardal Castell-nedd Port Talbot sydd ag angen mewnbwn y Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch (SAG) neu sy'n chwilio am gyngor ac adborth wrth ddatblygu digwyddiad awyr agored newydd.

Yn ôl y diffiniad eang, mae digwyddiad yn cwmpasu gweithgaredd trefnedig nad yw'n rhan o weithgareddau beunyddiol arferol. Yn gyffredinol, fe'i cynllunnir at ddiben arbennig neu benodol ac mae'n cwmpasu mwy o bobl na'r hyn a welir fel arfer (ar unrhyw adeg) yn y man hwnnw.

Nid yw'r polisi hwn yn berthnasol i weithgareddau chwaraeon trefnedig arferol (e.e. gêmau pêl-droed, rygbi, criced) ond mae'n berthnasol i geisiadau am ddigwyddiadau rhedeg, beicio trefnedig, dosbarthiadau ffitrwydd/hyfforddiant personol mewn grŵp a digwyddiadau chwaraeon ar raddfa fawr.

Mae'r prosesau a gyflwynir yn y polisi hwn yn darparu fframwaith ar gyfer cyflwyno cais am ddigwyddiad. Sefydlwyd y prosesau hyn er mwyn sicrhau bod digwyddiadau'n cael eu cynnal yn ddiogel ac mor llwyddiannus â phosib.


Mae'r cyngor yn cyflawni nifer o rolau a swyddogaethau amrywiol i gefnogi a hwyluso digwyddiadau. Mae hyn yn cynnwys swyddogaethau statudol megis trwyddedu safleoedd a mangreoedd, cau ffyrdd a sicrhau y bodlonir gofynion iechyd a diogelwch.

Yn ogystal, mae'r cyngor yn cefnogi'r gwaith o drefnu a hwyluso gweithgareddau hamdden a diwylliannol. Mae'r polisi hwn yn dangos ein hymrwymiad i ddatblygu digwyddiadau a gwyliau, a darparu proses i gefnogi trefnwyr digwyddiadau ac ymgysylltu â nhw er mwyn creu, cynllunio a chyflwyno digwyddiadau mewn modd diogel.

# 02. Nod

Mae strategaethau diwylliant a threftadaeth Castell-nedd Port Talbot yn ogystal â Chynllun Rheoli Cyrchfan y sir yn nodi blaenoriaethau strategol newydd o ran galluogi llesiant. Yn y strategaethau hyn, nodwyd bod gan ddigwyddiadau rôl bwysig o ran cyflwyno buddion economaidd a diwylliannol yn ogystal ag ysgogi balchder bro.

Mae ein hymrwymiadau, o ran ein dyletswydd gofal fel tirfeddiannwr/rheolwr tir, ynghyd â'n cyfrifoldebau statudol a rheoleiddiol i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth sy'n berthnasol i drefnu digwyddiadau, yn golygu bod rhaid i ni sicrhau bod digwyddiadau'n cael eu cynnal yn ddiogel ac o dan reolaeth, yn unol â disgwyliadau'r cyhoedd.




Gŵyl 'In It Together'

# 03. Datganiad Polisi Digwyddiadau

Bydd y polisi yn gwneud y canlynol:

- Cynnig arweiniad clir ynghylch pa ddigwyddiadau y caniateir/na chaniateir eu cynnal ar dir sy'n eiddo i'r cyngor neu o dan ei reolaeth.
- Sicrhau proses deg, gyson a thryloyw.
- Amlinellu ein rôl ni a rôl ein swyddogion yn y broses ddigwyddiadau.
- Darparu fframwaith cynhwysfawr er budd trefnwyr digwyddiadau, er mwyn sicrhau bod eu digwyddiadau'n bodloni ein polisi a'n gweithdrefnau, gan gynnwys arfer gorau.
- Sicrhau y diogelir yr amgylchedd lleol a'n hasedau fel bod modd iddynt gael eu defnyddio gan drefnwyr digwyddiadau yn y dyfodol a chan y cyhoedd ar hyd y flwyddyn.
- Cefnogi cyflwyno gwell cynnig hamdden a diwylliant yn y sir.
- Cydbwyso buddiannau preswylwyr lleol, defnyddwyr rheolaidd parciau, mannau agored a glan y môr, rhanddeiliaid a busnesau ar y naill law ac effaith a/neu fanteision cynnal y digwyddiad ar y llaw arall.
- Sicrhau mai nifer cynaliadwy o ddigwyddiadau yn unig a ganiateir.
- Hyrwyddo arfer gorau ym mhob agwedd ar reoli digwyddiad.
- Darparu amgylchedd cefnogol ar gyfer trefnwyr digwyddiadau cymunedol a masnachol er mwyn helpu i ddatblygu a chyflwyno digwyddiadau diogel a difyr.

# 04. Rolau a Chyfrifoldebau

Ein rôl ni yw cefnogi'r broses ymgeisio a darparu digwyddiad o'r dechrau i'r diwedd, sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi a'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd a'r ymrwymiadau statudol. Bydd hyn yn cynnwys helpu'r trefnwyr i hyrwyddo digwyddiadau trwy ein gwahanol ffrydiau ar y cyfryngau.

### a. Mae rôl Cyngor Castell-nedd Port Talbot o ran digwyddiadau a gynhelir ar dir y cyngor yn cynnwys:

- Bod yn fan cyswllt canolog ar gyfer pob neges ynghylch rheoli digwyddiadau, o'r cais cychwynnol i'r penderfyniad terfynol i'w gymeradwyo neu ei wrthod.
- Darparu gwybodaeth ac adborth ym mhob cam o'r broses ddigwyddiadau, er mwyn hwyluso gwaith cynllunio, trefnu a chyflwyno effeithiol gan y trefnydd.
- Sicrhau bod cyfle, pan fo angen, i Wasanaethau perthnasol mewnol ac allanol sydd ag arbenigedd rheoli digwyddiadau a chyfrifoldebau statudol a rheoleiddiol perthnasol, gyflwyno sylwadau a chynghori ar geisiadau am ddigwyddiadau.
- Hwyluso a chadeirio cyfarfodydd y Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch (SAG).
- Ymweld â digwyddiadau cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad i asesu cydymffurfiaeth â chais y digwyddiad, yr asesiad risg ac unrhyw drwyddedau a ddarparwyd ar gyfer y digwyddiad.
- Cynnal adolygiad/ôl-drafodaeth gyda threfnydd y digwyddiad.

Pan fydd angen Trwydded Mangre oherwydd natur y gweithgareddau a drefnir, ni fydd rhoi'r Drwydded honno ar gyfer digwyddiad ar dir y cyngor yn golygu o reidrwydd y gall y digwyddiad fynd yn ei flaen. Mae trefnydd y digwyddiad yn dal i orfod cyflwyno cais am drwydded neu ganiatâd i ddefnyddio'r tir gan ddilyn y broses ymgeisio.

### b. Mae rôl Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn cynnwys:

- Cynnig cyngor i drefnwyr digwyddiadau ynghylch y broses ymgeisio mae'n rhaid ei dilyn er mwyn cynnal digwyddiad ar dir cyhoeddus neu ar dir preifat yn y sir.
- Sicrhau, i'r graddau y bydd hynny'n ymarferol, fod trefnwyr digwyddiadau a thirfeddianwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau yng nghyswllt digwyddiadau a gynhelir ar dir cyhoeddus a thir preifat.
- Rhoi cyngor i drefnwyr digwyddiadau trwy ein Tîm Digwyddiadau neu swyddogion perthnasol eraill, a'r SAG pan fydd hynny'n briodol, er mwyn cyflawni'r cyfrifoldebau hyn.

### c. Rôl y SAG

Panel cynghori yw'r SAG sy'n darparu cyngor ac arweiniad i drefnwyr digwyddiadau ar dir y cyngor ac ar dir preifat. Bydd aelodaeth y grŵp yn amrywio yn ôl natur y digwyddiad (er enghraifft, gellir ymgynghori

â gwylwyr y glannau ynghylch digwyddiadau a gynhelir ar y môr yn ogystal â'r lan) ond fel arfer mae'n cynnwys cynrychiolwyr yr heddlu, y gwasanaethau tân, priffyrdd, gwasanaethau'r cyngor a'r gwasanaeth ambiwlans. Nid yw'r SAG yn gwneud penderfyniadau ond fe fydd yn darparu cyngor ynghylch cynlluniau digwyddiad, yn rhoi adborth ac yn rhannu unrhyw bryderon â'r trefnwyr. Mae modd cyflwyno ymholiadau i'r grŵp trwy'r Tîm Digwyddiadau a fydd yn ymgynghori â'r cynrychiolwyr perthnasol os teimlant fod hynny'n briodol.

Fel tirfeddiannwr, mae'r penderfyniad terfynol i gymeradwyo/wrthod cynnal digwyddiad ar dir y cyngor yn ein dwylo ni. Yn achos digwyddiad ar dir preifat pan fydd pryderon difrifol am les y cyhoedd, gall aelodau'r SAG, gan gynnwys yr heddlu a'r awdurdod lleol, leisio eu pryderon a chynnig cyngor. Mae'r cyfrifoldeb cyffredinol yn nwylo trefnydd y digwyddiad a'r tirfeddianwyr. Os cyfyd problemau o ran y drefn gyhoeddus, bygythiad difrifol i fywyd neu ddiogelwch cyhoeddus, bydd modd i'r heddlu orfodi eu pwerau statudol.

Ni sy'n goruchwylio ceisiadau am gau ffyrdd, mewn ymgynghoriad ag asiantaethau, a ni sy'n gwneud y penderfyniad terfynol i ganiatáu neu wrthod ceisiadau.

Yn gyffredinol, mae'n bosib y bydd gofyn i'r SAG drafod a darparu mewnbwn ar ddigwyddiadau ar gyfer 500+ o bobl ar unrhyw adeg, boed hynny ar dir y cyngor neu ar dir preifat. Gall y rhain ymgorffori elfennau cymhleth/uchel eu risg megis tân gwyllt, cyngherddau a gwyliau cerdd broffesiynol y gwerthir tocynnau ar eu cyfer, cau ffyrdd, mesurau gwrthderfysgaeth, gwerthu llawer o alcohol, i enwi rhai yn unig. Efallai y bydd angen i ddigwyddiad ar gyfer llai na 500 o bobl ar unrhyw adeg gael ei gyfeirio at y SAG os bernir bod risg uchel yn gysylltiedig ag ef.

I weld cylch gorchwyl llawn yr ymweliad SAG, ewch i'n gwefan.

### d. Rôl trefnydd y digwyddiad

Trefnydd y digwyddiad sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am gynllunio a rheoli'r digwyddiad yn ddiogel. Gall nifer o bobl fod yn rhan o'r gwaith cynllunio a chyflwyno ond dylai'r cais enwi un trefnydd sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y digwyddiad.

Ar dir sy'n eiddo i'r cyngor, bydd gofyn i drefnydd y digwyddiad wneud y canlynol:


- Darllen ein gweithdrefnau a'n polisi digwyddiadau a glynu wrthynt.
- Ymgysylltu â'r cynghorwyr ward lleol, trigolion a busnesau cyn y digwyddiad, fel sydd angen ym marn y cyngor, er mwyn lleiafu effeithiau negyddol y digwyddiad a rhoi camau ar waith i liniaru unrhyw anghyfleustra a achosir.
- Sicrhau y glynir bob amser wrth yr holl reoliadau a chanllawiau iechyd, diogelwch a lles cyfredol mewn perthynas â phob gweithgaredd ac unigolyn yn ystod cyfnodau cynllunio, cyflwyno a mynychu digwyddiadau.
- Sicrhau bod yr holl drwyddedau angenrheidiol perthnasol yn eu lle, e.e. trwydded mangre.
- Rhoi'r holl ddogfennau angenrheidiol i ni ac i unrhyw gorff/asiantaeth statudol arall yn unol â'r polisi a'r

gweithdrefnau digwyddiadau.

- Dod i unrhyw gyfarfodydd SAG, ac unrhyw gyfarfodydd eraill yn ôl y gofyn.
- Sicrhau y cynhelir y digwyddiad yn unol â'r dogfennau a gyflwynwyd: y ffurflen gais, y cynllun rheoli digwyddiad, yr asesiad risg a'r datganiad dull gweithredu.
- Rhoi adborth i ni ar ddiwedd y digwyddiad a fydd yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol: y niferoedd oedd yn bresennol, manylion unrhyw ddamweiniau/ddigwyddiadau, y gwersi a ddysgwyd a'r hyn fu'n llwyddiannus. Anfonir neges e-bost at drefnydd y digwyddiad (wedi'r digwyddiad) yn cynnwys dolen i'r ffurflen adborth y bydd angen ei llenwi.
- Dod i sesiwn ôl-drafodaeth wedi'r digwyddiad (os bydd angen) mewn ymateb i wahoddiad y swyddog digwyddiadau neu'r SAG.
- Cadw tystiolaeth o'r lefel angenrheidiol o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, gan gynnwys yswiriant rhag difrod, a'i rhannu gyda ni.

Ar dir preifat, cynghorir trefnwyr i wneud y canlynol:

- Sicrhau eu bod yn glynu bob amser wrth yr holl reoliadau a chanllawiau iechyd, diogelwch a lles cyfredol mewn perthynas â phob gweithgaredd ac unigolyn yn ystod camau cynllunio, cyflwyno a mynychu digwyddiadau.
- Rhoi'r dogfennau angenrheidiol i ni ac i unrhyw gorff neu asiantaeth statudol arall.
- Bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran yr effaith ar yr ardal ehangach, megis priffyrdd.
- Gofyn am gyngor oddi wrth swyddogion yn yr adrannau canlynol; digwyddiadau, trwyddedu a iechyd yr amgylchedd, ynghyd â'r SAG, pan fydd hynny'n briodol.



Castell Margam – Noson Codi Ofn

# 05. Digwyddiadau a Ganiateir ar Dir y Cyngor

Ni chaniateir digwyddiadau a allai dramgwyddo neu wrthdaro â pholisïau sydd eisoes yn bodoli, neu niweidio enw da'r cyngor. Mae gennym bolisïau clir o ran yr hyn a ystyrir yn ddigwyddiadau priodol ar dir y cyngor a rhesymeg glir dros hynny. Darllenwch Dabl 1 i gael rhagor o wybodaeth.

**Tabl 1: Mathau o Ddigwyddiadau**

| Math | Caniatâd neu Beidio | Disgrifiad/Rhesymeg | Enghraifft o Ddigwyddiad | Angen Cais? |
|---|---|---|---|---|
| Digwyddiadau Bach Teuluol. | Rhoddir caniatâd yn gyffredinol. | Lle bernir bod digwyddiad preifat o fewn cyd-destun ehangach y lleoliad arfaethedig (h.y. parciau) ond nad yw'n torri unrhyw is-ddeddfau. | Cynulliadau teuluol ar gyfer hyd at 30 o bobl. | Nid oes angen cais ffurfiol ond dylid rhoi gwybod am y digwyddiad er mwyn cael cadarnhad a chanllawiau synhwyrol. |
| Digwyddiadau cymunedol, elusennol a nid-er-elw (CCNPT). | Rhoddir caniatâd. | Digwyddiadau gan sefydliadau nid-er-elw neu gyrff codi arian lle bydd yr holl elw yn cael ei fuddsoddi yn nigwyddiad y flwyddyn ganlynol a lle nodir y manylion ar y ffurflen gais. Gallant fod yn ddigwyddiadau di-dâl neu'n rhai y gwerthir tocynnau ar eu cyfer.<br><br>Dylai trefnwyr yn y categori hwn nodi y bydd digwyddiad sy'n cynnwys mwy na 33% o weithredwyr masnachol trydydd parti, yn cael ei ystyried yn 'Ddigwyddiad Cymunedol â Gweithgarwch Masnachol' a bydd y ffioedd priodol a bennir yn Nhabl 4 yn daladwy. | • Ffeiriau.<br>• Digwyddiadau chwaraeon lleol.<br>• Arddangosfeydd.<br>• Digwyddiadau sy'n cynnwys gweithgareddau i blant.<br>• Diwrnodau hwyl i deuluoedd.<br>• Parêdau a gorymdeithiau.<br>• Perfformiadau cerddorol/ cyngherddau awyr agored.<br>• Ail-greu digwyddiadau hanesyddol. | Oes. Codir tâl am ddefnyddio'r tir at ddibenion masnachol. |

| Tabl 1: Mathau o Ddigwyddiadau | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Math** | **Caniatâd neu Beidio** | **Disgrifiad/Rhesymeg** | **Enghraifft o Ddigwyddiad** | **Angen Cais?** |
| Digwyddiad Masnachol, Gyda'r Nod o Wneud Elw. | Rhoddir caniatâd. | Ystyrir ceisiadau fesul achos. Gall digwyddiadau fod yn rhai di-dâl neu'n rhai y gwerthir tocynnau ar eu cyfer. | • Ffeiriau pleser (heb anifeiliaid).<br>• Syrcasau.<br>• Cyngherddau cerddorol, theatr, sinema awyr agored a gwyliau cerdd.<br>• Arddangosfeydd.<br>• Digwyddiadau hyrwyddo.<br>• Marchnadoedd â thema. | Oes. Codir tâl am ddefnyddio'r tir at ddibenion masnachol. |
| Preifat/Tocynnau yn unig. | Rhoddir caniatâd yn gyffredinol. | Ystyrir ceisiadau sy'n cadw mynediad i'r cyhoedd. | Lansio cynnyrch corfforaethol, digwyddiad graddio. | Oes. Codir tâl am ddefnyddio'r tir at ddibenion masnachol. |
| Priodasau a Brecwastau Priodas. | Rhoddir caniatâd os oes gan y man cynnal drwydded berthnasol. | Er enghraifft yr Orendy, Parc Gwledig Margam. | Amh. | Amh. |
| Digwyddiadau Chwaraeon Moduro. | Ni roddir caniatâd. | Mae effaith y digwyddiadau hyn ar fannau, e.e. parciau/traethau yn gallu bod yn niweidiol a chyfyngu'n sylweddol ar fynediad cyhoeddus. | Amh. | Amh. |

**Tabl 1: Mathau o Ddigwyddiadau**

| Math | Caniatâd neu Beidio | Disgrifiad/Rhesymeg | Enghraifft o Ddigwyddiad | Angen Cais? |
|---|---|---|---|---|
| Balwnau a Llusernau. | Ni roddir caniatâd. | Gall y digwyddiadau hyn gael effeithiau niweidiol hirdymor ar fywyd gwyllt a'r amgylchedd morol yn arbennig. Mae rhyddhau llusernau hefyd yn cyflwyno risg annerbyniol o ran diogelwch tân. | • Rhyddhau balwnau coffa.<br>• Rhyddhau llusernau i'r awyr. | Amh. |
| Tân Gwyllt. | Rhoddir caniatâd yn gyffredinol. | Rhoddir caniatâd os cyflwynir cais gan gwmni cymwys sy'n cydymffurfio â'r holl ofynion rheoleiddio, aswiriant ac asesiadau risg.<br><br>Anogir trefnwyr i ystyried defnyddio tân gwyllt sŵn isel a dylent drafod y mater hwn gyda'r cyngor ymlaen llaw. | • Arddangosfeydd tân gwyllt penodol.<br>• Tân gwyllt sy'n rhan o ddigwyddiad. | Oes. |
| Digwyddiadau sy'n Defnyddio Anifeiliaid. | Ystyrir y rhain fesul achos. | Ni chaniateir defnydd achlysurol o anifeiliaid. Ni chaniateir defnyddio anifeiliaid mewn syrcas. Mae'n bosib y caniateir arddangosfeydd neu arddangosiadau anifeiliaid at ddibenion addysgol. Rhaid sicrhau cefnogaeth asiantaethau lles anifeiliaid a darparu tystiolaeth o ofal milfeddygol a'r holl drwyddedau, dogfennau cludo a iechyd a diogelwch angenrheidiol. | • Sioeau cŵn.<br>• Arddangosiadau adar ysglyfaethus. | Oes. |

| Tabl 1: Mathau o Ddigwyddiadau | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Math** | **Caniatâd neu Beidio** | **Disgrifiad/Rhesymeg** | **Enghraifft o Ddigwyddiad** | **Angen Cais?** |
| Digwyddiadau sy'n Golygu Cau Ffyrdd. | Rhoddir caniatâd yn gyffredinol. | Bydd angen cyflwyno cais am gau ffordd pan fydd y gweithgaredd yn effeithio ar lif traffig diogel ar briffordd gyhoeddus neu wedi'i drefnu ar dir ar y briffordd gyhoeddus y mae deddfwriaeth yn berthnasol iddo. | • Ffilmio.<br>• Paredau.<br>• Gorymdeithiau.<br>• Marchnadoedd.<br>• Ffeiriau pleser.<br>• Digwyddiadau chwaraeon.<br>• Parti Stryd. | Oes. |
| Digwyddiadau Crefyddol. | Ystyrir y rhain fesul achos. | Gweler yr wybodaeth ychwanegol yn yr adran isod. | | Oes. |
| Protestiadau neu Ralïau. | Ystyrir y rhain fesul achos. | Rhyddid i lefaru/hawl i brotestio'n gyfreithlon ac yn heddychlon. Dilynir yr un gweithrediadau diogelwch a chynllunio â'r hyn sy'n berthnasol i ddigwyddiadau â'r un ystyriaethau a'r un drefn briodol. | | Oes. |

Nid oes gofyn cyflwyno cais am gasgliadau elusennol heb adeileddau nac unrhyw weithgareddau heblaw am gasglu arian. Bydd gofyn cael trwydded casgliad elusennol, gweler y manylion yn Nhabl 5.

Bydd y Tîm Digwyddiadau yn cysylltu â'r staff cyfatebol mewn awdurdodau lleol cyfagos er mwyn sicrhau nad oes cynlluniau i gynnal digwyddiadau eraill ar raddfa fawr ar yr un dyddiad. Gwneir hynny er mwyn sicrhau na fydd y gwasanaethau brys yn cael eu gorlethu petai rhywbeth yn digwydd ac i leiafu'r effaith ar rwydweithiau trafnidiaeth. Cynghorir trefnwyr digwyddiadau i wirio dyddiadau ymlaen llaw trwy edrych ar wefannau'r awdurdod lleol perthnasol cyn cyflwyno cais i'r cyngor ac ystyried cynnal digwyddiadau yn ystod tymhorau/ar ddyddiadau llai prysur.

## Digwyddiadau a Gweithgareddau Eraill Nas Caniateir

Cedwir yr hawl i wrthod caniatâd yn achos digwyddiad neu unrhyw hysbysebu sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gweithgareddau canlynol neu'n gysylltiedig â nhw:

- Cynhyrchwyr tybaco ac alcohol.
- Mudiadau neu bleidiau gwleidyddol eithafol.
- Cais i ni gymeradwyo unrhyw ddigwyddiad ar dir y cyngor y mae ei nodau yn gwrthdaro neu'n ceisio tanseilio penderfyniadau neu bolisïau democrataidd y cyngor.
- Unrhyw fusnes sy'n gysylltiedig â chynhyrchu neu werthu arfau tanio.
- Unrhyw gwmnïau sy'n ymwneud â'r diwydiant rhyw.
- Busnesau sy'n arbrofi ar anifeiliaid.
- Unrhyw sefydliadau sy'n ymwneud â hela neu sy'n defnyddio neu'n achosi niwed i unrhyw anifail neu sy'n niweidiol i ddiogelwch a lles unrhyw anifail.
- Unrhyw weithgaredd a allai achosi anghytgord ar sail hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol neu anabledd, neu unrhyw weithgaredd ag agweddau negyddol sy'n peryglu ein hymrwymiad i gyfleoedd cyfartal neu y gellid ystyried eu bod yn torri rheolau Deddf Cydraddoldeb 2010. Yn benodol, bydd hyn yn cynnwys unrhyw ddigwyddiad elusennol, cymunedol neu fasnachol y gwerthir tocynnau ar ei gyfer sy'n gwahardd unrhyw grwpiau neu unigolion neu'n gwrthod mynediad iddynt.
- Yn gyffredinol, ni chaniateir gweithgareddau stopio a holi, vox pop er mwyn osgoi tarfu'n ddiangen ar y cyhoedd, ond bydd modd iddynt gael eu hystyried fesul achos.
- Gweithgaredd sydd wedi'i wahardd yn benodol gan is-ddeddf.

# 06. Polisi Ffilmio a Dronau

Yn gyffredinol, mae cefnogi cyfleoedd ffilmio yn fanteisiol i ni gan fod hynny'n gallu codi proffil yr ardal. Rydym yn barod i ystyried ceisiadau am ffilmio ar ein tir, gan gynnwys defnyddio dronau. Rhaid sicrhau bod pob cais yn cydymffurfio â'r un gofynion ag unrhyw ddigwyddiad arall a drefnir ar dir y cyngor.

Os cytunir ar geisiadau ffilmio ar fyr rybudd, ar gyfer darllediadau newyddion byw neu glipiau wedi'u recordio ymlaen llaw yn bennaf, bydd yr asesiadau hyn yn ddeinamig ac yn gofyn am dystiolaeth o asesiad risg ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.

### Mae Ceisiadau Ffilmio Nas Caniateir yn Cynnwys y Canlynol:

- Unrhyw weithgareddau a restrir yn Nhabl 1.
- Gwaith ffilmio a fyddai'n achosi niwsans neu annifyrrwch afresymol neu estynedig i ddeiliaid eiddo cyfagos, busnes neu'r cyhoedd.
- Gwaith ffilmio sy'n amharu ar breifatrwydd pobl eraill.
- Gwaith ffilmio a fyddai'n peryglu diogelwch adeiladau ac eiddo.
- Gwaith ffilmio a fyddai'n torri rheoliadau GDPR a/neu'r CAA neu unrhyw reoliadau eraill o ran diogelwch neu breifatrwydd.

### Defnyddio Dronau

Er mwyn cael caniatâd gan y cyngor i weithredu drôn at ddibenion masnachol, rhaid i'r gweithredwr gael hawlen oddi wrth yr Awdurdod Hedfan Sifil (CAA). Ni roddir caniatâd heb weld tystiolaeth o'r hawlen hon. Rhaid i'r holl hawlenni lynu wrth gôd dronau'r CAA. Mae gofyn hefyd fod gan weithredwr y drôn yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gwerth isafswm o £5 miliwn.

### Ffilmio gan Fyfyrwyr

Cefnogir myfyrwyr sy'n ffilmio'n anfasnachol fel rhan hanfodol o'u gwaith cwrs. Bydd angen i'r brifysgol, y coleg neu'r darparwr addysg bellach gadarnhau hynny yn ysgrifenedig. Rhaid i'r holl ddyddiadau ac amseroedd ffilmio gael eu cytuno ymlaen llaw gyda'r Cyngor. Yn ogystal, bydd angen cadarnhad o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer unrhyw ffilmio ar leoliad gan fyfyrwyr.

Gall ffilmio gan fyfyrwyr mewn mannau agored cyhoeddus ofyn am fwy o gymorth nag y gallwn ei ddarparu yn rhesymol ac i leihau risgiau, bydd y cyfyngiadau canlynol yn berthnasol:

- Dim mwy na chwe awr o ffilmio rhwng 9:00 AM a 5:00 PM o ddydd Llun i ddydd Gwener yn unig, ac eithrio gwyliau'r banc.
- Ni chaniateir unrhyw seilwaith.
- Cyfrifoldeb y myfyrwyr a'u sefydliad addysgol yw sicrhau'r trwyddedau neu'r hawlenni angenrheidiol a bydd rhaid cadarnhau'r rhain cyn y gellir rhoi caniatâd.
- Mae gofyn cyflwyno asesiad risg cyflawn gyda'r cais.

# 07. Polisi Ceisiadau, Cymeradwyo a Gwrthod Digwyddiadau

Mae'r cyngor wedi ymrwymo i ddarparu'r cyngor a'r arweiniad gorau i drefnwyr digwyddiadau i'w helpu i gynllunio digwyddiad diogel a phleserus.

Mae'r broses o gyflwyno cais am ddigwyddiad yn gyfres o gamau y mae angen i drefnwyr digwyddiadau eu dilyn er mwyn cael eu hystyried a'u cymeradwyo gan y cyngor a'i bartneriaid statudol, gan gynnwys yr asiantaethau sy'n rhan o'r SAG lle bo hynny'n berthnasol.

Lluniwyd y broses ymgeisio er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol a pherthnasol am y digwyddiad wedi'i pharatoi'n dda gan y trefnydd ac yn cael ei hadolygu a'i hystyried gan swyddogion, sefydliadau a gwasanaethau arbenigol priodol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth ac unrhyw bolisïau ac arfer gorau ehangach a amlinellir yn y polisi hwn.

Y cyngor fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol o ran cymeradwyo neu wrthod cais am ddigwyddiad.

## Ceisiadau

Cewch ffurflen ymgeisio am ddigwyddiad, ynghyd â gwybodaeth ategol, trwy e-bostio specialevents@npt.gov.uk. Fodd bynnag, cynghorir trefnydd y digwyddiad i gysylltu â'r Tîm Digwyddiadau yn gyntaf i drafod dyddiadau a lleoliadau posibl a dichonoldeb cynnal y digwyddiad. Mae'n arbennig o bwysig cyfeirio at y gweithdrefnau yn y polisi hwn a sicrhau y cyflwynir y cais gyda'r dogfennau priodol ac yn unol â'r amserlenni a bennir.

Gall fod gofyn i drefnwyr digwyddiadau mawr newydd gwblhau asesiad cyn ymgeisio a sicrhau 'cytundeb mewn egwyddor' i ddefnyddio lleoliad cyn cyflwyno cais ffurfiol. Gall hyn olygu ymgynghoriad cychwynnol â'r prif randdeiliaid ac aelodau'r SAG er mwyn asesu dichonoldeb cynnal y digwyddiad. Bydd y gefnogaeth 'mewn egwyddor' yn ddibynnol ar sicrhau'r trwyddedau a'r caniatâd angenrheidiol a gellir tynnu'r gefnogaeth 'mewn egwyddor' yn ôl os methir â'u sicrhau, ac ni fydd y cyngor yn atebol am unrhyw gostau yr eir iddynt.

Caiff ceisiadau eu hystyried ar sail y cyntaf i'r felin y rhan fwyaf o'r amser, fodd bynnag, mewn rhai achosion, gall perfformiad hanesyddol digwyddiad sydd wedi ennill ei blwyf olygu y caiff ei flaenoriaethu, os bydd mwy nag un parti yn cyflwyno cais am ddigwyddiad ar yr un dyddiad/yn yr un lleoliad.

Bydd y cyngor a'r swyddogion a'r asiantaethau perthnasol, gan gynnwys y SAG, yn ystyried priodoldeb unrhyw gais yn seiliedig ar ddigwyddiadau blaenorol y trefnydd ac unrhyw ddigwyddiadau sydd i ddod yn yr un ardal ddaearyddol.

Rhaid i drefnydd y digwyddiad gydymffurfio'n llwyr â'r weithdrefn ymgeisio, ymateb i holl geisiadau'r cyngor am ragor o wybodaeth a sicrhau bod tystiolaeth o bolisïau a gweithdrefnau yn rhan o'r broses o gyflwyno cais am ddigwyddiad.

Y niferoedd y rhagwelir y byddant yn bresennol yn y digwyddiad ar unrhyw adeg yw'r prif benderfynydd o ran y dogfennau sy'n ofynnol wrth gynllunio'r digwyddiad. Hynny hefyd fydd yn pennu a fydd angen i'r SAG drafod y cais. Ond mewn rhai achosion, gall digwyddiad llai fod yn fwy cymhleth ei natur neu gyflwyno digon o risgiau fel bod angen ei gyfeirio at y SAG.

Mae'n debygol iawn y bydd digwyddiad mawr yn effeithio ar seilwaith yr ardal ehangach. Hyd yn oed os na chynhelir digwyddiad ar y briffordd, mae'n dal i allu achosi tagfeydd traffig a gallai'r sŵn sy'n deillio o'r digwyddiad ynghyd â niferoedd mawr o bobl sy'n cyrraedd ac yn gadael y digwyddiad effeithio ar gymunedau preswyl a busnes lleol.

Efallai y bydd angen i drefnwyr ystyried goblygiadau trwyddedu, gan gynnwys yr angen am drwydded mangre benodol a all gymryd rhai misoedd i gael ei chymeradwyo gan fwrdd trwyddedu'r cyngor a golygu ymgynghoriad llawn ag aelodau'r SAG a'r gymuned leol.



Mae Tabl 2 isod yn amlinellu'r gwahanol fathau o ddigwyddiadau a'r amserlenni a ffafrir ar gyfer cyflwyno cais, ac yn awgrymu'r hyn y gall fod angen ei gyflwyno. Nid yw'n rhestr gyflawn, a darperir dolenni i ganllawiau a deddfwriaeth genedlaethol a all fod yn berthnasol wrth i chi gynllunio'ch digwyddiad. Unwaith eto, gofalwch gysylltu â'r Tîm Digwyddiadau i gael cymorth ar hyd y broses ymgeisio.

**Tabl 2: Cyflwyno Cais am Ddigwyddiad – Amserlenni a Dogfennau**

| Math o Ddigwyddiad | Amserlen a Ffafrir | Dogfennau i'w Cyflwyno |
|---|---|---|
| Digwyddiad lle bydd hyd at 500 o bobl yn bresennol ar unrhyw adeg. | 3 mis. | • Ffurflen gais y digwyddiad.<br>• Cynllun Rheoli Digwyddiad (EMP) Sylfaenol sy'n cynnwys asesiad risg, cynllun stiwardio, cynllun cymorth cyntaf ac ati.<br>• Cynllun y digwyddiad.<br>• Yswiriant atebolrwydd cyhoeddus (indemniad gwerth o leiaf £5 miliwn).<br>• Manylion ynghylch cynnwys y digwyddiad (e.e. masnachwyr, gwerthwyr bwyd, reidiau i blant, llwyfan, system sain).<br>• Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro ar gyfer adloniant a bar os bydd hynny'n berthnasol. |
| Digwyddiad lle bydd 500+ yn bresennol ar unrhyw adeg. Rhaid cael mewnbwn SAG ar gyfer y digwyddiadau hyn sy'n ymgorffori elfennau risg uchel/ cymhleth megis tân gwyllt, cyngherddau a gwyliau cerdd proffesiynol y gwerthir tocynnau ar eu cyfer, cau ffyrdd, mesurau gwrthderfysgaeth, gwerthu llawer o alcohol, ond heb eu cyfyngu i hynny. | O leiaf 6 mis.<br><br>Yn achos digwyddiadau newydd lle bydd mwy na 1000 yn bresennol, bydd gofyn defnyddio proses cyn-ymgeisio. | • Ffurflen gais y digwyddiad.<br>• Cynllun rheoli digwyddiad (EMP) sy'n cynnwys y canlynol ond heb ei gyfyngu i hynny: cynllun y digwyddiad, asesiadau risg penodol – tân, bygythiad terfysgol, cynllun rheoli tyrfa, cynllun rheoli traffig, cynllun meddygol, cynllun rheoli alcohol.<br>• Mae'n bosib y bydd angen Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro neu Drwydded Mangre.<br>• Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus gwerth rhwng £5 miliwn a £10 miliwn. |

| Tabl 2: Cyflwyno Cais am Ddigwyddiad – Amserlenni a Dogfennau | | |
|---|---|---|
| **Math o Ddigwyddiad** | **Amserlen a Ffafrir** | **Dogfennau i'w Cyflwyno** |
| Ffilmio cynhyrchiad mawr (e.e. criw o fwy na 10 a lorïau cynhyrchu).<br><br>Yn cynnwys unrhyw ddigwyddiad sy'n defnyddio dronau. | O leiaf 4 wythnos ar gyfer cynyrchiadau masnachol mawr. | • Ffurflen ceisiadau ffilmio.<br>• Cynllun Rheoli Digwyddiad gydag asesiadau risg, cynllun rheoli traffig (os bydd hynny'n berthnasol), cynllun y safle, diogelwch a stiwardio, a threfniadau ymgynghori lleol.<br>• Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus gwerth £5 miliwn.<br>• Hawlen y CAA ac asesiad risg ac yswiriant penodol ar gyfer dronau. |
| Ffilmio cynhyrchiad bach (criw cyfyngedig, dim llwyfannu na seilwaith).<br><br>Yn cynnwys unrhyw ddigwyddiad sy'n defnyddio dronau. | 2 wythnos. | • Ffurflen ceisiadau ffilmio.<br>• Asesiad risg.<br>• Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus gwerth £5 miliwn.<br>• Hawlen y CAA ac asesiad risg ac yswiriant penodol ar gyfer dronau.<br>• Gofynion eraill yn dibynnu ar y cynllun unigol. |

| Tabl 2: Cyflwyno Cais am Ddigwyddiad – Amserlenni a Dogfennau | | |
|---|---|---|
| **Math o Ddigwyddiad** | **Amserlen a Ffafrir** | **Dogfennau i'w Cyflwyno** |
| Ceisiadau am waith ffilmio gan fyfyrwyr.<br><br>Mae hyn yn cynnwys unrhyw ddigwyddiad sy'n defnyddio dronau. | 2 wythnos. | • Ffurflen ceisiadau ffilmio.<br>• Asesiad risg.<br>• Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus gwerth £5 miliwn.<br>• Hawlen y CAA ac asesiad risg ac yswiriant penodol ar gyfer dronau.<br>• Gofynion eraill yn dibynnu ar y cynllun unigol.<br>• Cydsyniad y sefydliad addysg perthnasol. |
| Unrhyw ddigwyddiadau sy'n golygu cau ffyrdd. | 12 wythnos. | • Map llwybr y gall fod angen iddo ddangos y ffyrdd sy'n cau, lleoliad yr arwyddion diogelwch ffyrdd a lleoliad y stiwardiaid.<br>• Cynllun rheoli traffig sy'n cynnwys asesiad risg a manylion y llwybrau i mewn ac allan ar gyfer cerbydau brys.<br>• Ynghyd â chynlluniau perthnasol a'r manylion yswiriant sy'n ofynnol ar gyfer ceisiadau am ddigwyddiadau eraill. |

Sylwch mai canllawiau yw'r amserlenni a nodir uchod. Cyfrifoldeb trefnydd y digwyddiad yw sicrhau cytundeb ysgrifenedig y Tîm Digwyddiadau os bydd angen newid y terfynau amser hyn. Ym mhob achos, rhaid i drefnydd y digwyddiad gysylltu â'r Tîm Digwyddiadau i ofyn am gymeradwyaeth cyn y terfyn amser. Gall y Tîm Digwyddiadau wrthod cais sy'n gwyro o'r terfynau amser uchod. Y Tîm Digwyddiadau, mewn ymgynghoriad â chynrychiolwyr perthnasol y SAG, fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch cyfeirio digwyddiad at sylw'r SAG.

## Cymeradwyo

Bydd y cais am ddigwyddiad yn ddilys dim ond os cyflwynir yr holl wybodaeth ategol a'r dogfennau angenrheidiol o dan ofynion y polisi hwn. Cynghorir trefnydd y digwyddiad i **beidio** â rhoi cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad nes iddo gael cadarnhad ysgrifenedig bod modd bwrw ymlaen ag ef. Os bydd trefnydd y digwyddiad yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad cyn i'r cais gael ei gymeradwyo, ni ellir dal y cyngor yn gyfrifol am unrhyw gostau a ddaw i ran y trefnydd neu gontractwyr os gwrthodir y cais wedi hynny.



Gŵyl Bwyd a Diod Castell-Nedd

## Gwrthod

Mae penderfyniad y cyngor yn **derfynol** a chedwir yr hawl i wrthod caniatáu digwyddiad o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Diffyg cydymffurfiaeth ag un neu ragor o'r gofynion a amlinellir yn ein polisi a'n gweithdrefnau digwyddiadau neu mewn unrhyw bolisi perthnasol arall o eiddo'r cyngor.
- Peidio â chyflwyno'r cais neu unrhyw wybodaeth ategol yn unol â'r amserlenni a amlinellir yn y polisi hwn, neu unrhyw amserlen ddiwygiedig y cytunwyd arni gyda'r Tîm Digwyddiadau.
- Peidio â thalu'r ffi ymgeisio, y ffioedd llogi neu'r blaendal gwaith adfer.
- Os bydd un neu ragor o feysydd gwasanaeth mewnol yn codi pryderon am effaith negyddol ddifrifol y digwyddiad ar y gwasanaeth hwnnw.
- Pryderon difrifol nad oes modd eu datrys a godir gan un neu ragor o aelodau'r SAG.
- Os cynhelir digwyddiadau tebyg neu ddigwyddiadau ar raddfa fawr mewn ardal gyfagos neu ar ddyddiadau agos a bod hynny, ym marn y cyngor, yn golygu bod gormod o ddigwyddiadau mewn ardal benodol neu ar safle penodol.
- Pryderon ynghylch effaith niweidiol bosib y digwyddiad ar y safle dan sylw, e.e. lle gallai difrod sylweddol ddigwydd i'r tir a fyddai'n effeithio ar allu'r gymuned a'r trigolion lleol i'w ddefnyddio yn y tymor byr/y tymor hir/y dyfodol.
- Achosion blaenorol neu hysbys o ddiffyg cydymffurfiaeth neu dorri unrhyw amodau neu ofynion a bennwyd gennym mewn unrhyw drwydded neu gytundeb rhyngom ni a threfnydd y digwyddiad, gan gynnwys torri amodau'r polisi hwn.

- Achosion blaenorol neu hysbys o ddiffyg cydymffurfiaeth neu dorri rheolau gan drefnydd y digwyddiad yng nghyswllt yr wybodaeth a'r gweithdrefnau a gyflwynwyd yng nghais trefnydd y digwyddiad, yn yr asesiad risg neu yn y cynllun rheoli digwyddiad.
- Pryderon ynghylch dichonoldeb ariannol y digwyddiad a sefydlogrwydd ariannol y sefydliad(au) sy'n cynnig cynnal y digwyddiad.
- Cyhoeddi neu bostio sylwadau amhriodol a/neu ddifenwol am y cyngor, ei staff neu ei aelodau, mewn unrhyw fforwm cyhoeddus, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol.
- Tystiolaeth flaenorol o osod posteri hyrwyddo yn anghyfreithlon, neu beidio â gwaredu hysbysebion a ganiatawyd.
- Pryderon ynghylch cymhwysedd a/neu addasrwydd trefnydd/trefnwyr y digwyddiad.
- Gwybodaeth a ddarparwyd gan awdurdod lleol, asiantaeth neu wasanaeth arall sy'n amlygu pryderon am gydymffurfiaeth gyffredinol neu briodoldeb y digwyddiad/trefnydd y digwyddiad.
- Os yw nifer y ceisiadau sydd eisoes wedi dod i law yn golygu nad oes modd i ni weinyddu unrhyw geisiadau pellach sy'n ein cyrraedd.

## Archwiliad Wedi'r Digwyddiad

Os bydd hynny'n berthnasol, caiff archwiliad wedi'r digwyddiad ei gynnal 1-2 ddiwrnod ar ôl y digwyddiad gan y Tîm Digwyddiadau, trefnydd y digwyddiad a/neu swyddogion priodol neu gontractwyr sy'n gweithredu ar ein rhan.

Yn ystod yr archwiliad safle, gall y swyddog sylwi ar y canlynol a'u cofnodi:

- Ymlyniad wrth yr amodau a bennwyd mewn unrhyw drwydded/ganiatâd/awdurdodiad i ddefnyddio'r tir.
- Difrod i'r safle a/neu seilwaith y safle. Gellir defnyddio delweddau (ffotograffig neu fideo) i gofnodi tystiolaeth o unrhyw ddifrod neu broblem sy'n ymwneud â'n tir, ein heiddo, fflora a ffawna. Caiff trefnydd y digwyddiad ofyn am gopïau o'r delweddau a gofnodwyd os na fydd yn bresennol yn yr archwiliad wedi'r digwyddiad.
- Gwastraff a adawyd ar y safle.
- Deunyddiau hyrwyddo a adawyd ar unrhyw safle neu leoliad.

Os gwelir difrod sydd, ym marn y Swyddog Digwyddiadau, yn deillio o'r digwyddiad, bydd hawl gennym gadw rhan neu'r cyfan o'r blaendal gwaith adfer (gweler Adran 8) er mwyn talu unrhyw gostau rhesymol sy'n gysylltiedig â'r gwaith atgyweirio/ailosod a'r amser gweinyddu dan sylw. Os bydd y costau atgyweirio yn fwy na'r blaendal a dalwyd, bydd trefnydd y digwyddiad yn cael anfoneb am y costau sy'n weddill.

## Ôl-drafodaeth ac Adborth

Efallai y bydd gofyn i drefnwyr ddarparu adborth ar eu digwyddiad. Bydd hyn fel arfer yn cynnwys manylion am y niferoedd oedd yn bresennol, adroddiadau gweithredol, damweiniau, damweiniau a fu bron â digwydd ac adroddiad ar adborth y cyhoedd.

Yn achos digwyddiadau mawr a/neu uchel eu risg, bydd gofyn i'r trefnwyr gynnal ôl-drafodaeth fanylach. Dylent wahodd y Swyddog Digwyddiadau i'r ôl-drafodaeth hon.

# 08. Polisi Codi Tâl

Mae'r cyngor wedi ymrwymo i ddarparu set o ffioedd a thaliadau teg am logi/ddefnyddio tir y cyngor at ddibenion masnachol ac nid-er-elw, a fydd yn cyfrannu at gost gweinyddu a rheoli digwyddiadau. Gellir codi tâl ychwanegol hefyd am hwyluso digwyddiadau â chymorth staff a chontractwyr, gan gynnwys cau ffyrdd, gwastraff, atal trefniadau parcio, adfer tir, ceisiadau am drwyddedau safle.

Adolygir y taliadau hyn yn flynyddol. Mae'r cyngor yn cadw'r hawl i amrywio, hepgor neu gynyddu taliadau mewn ymgynghoriad â'r uwch-reolwyr priodol er mwyn sicrhau cydbwysedd i'r cyngor rhwng sicrhau gwerth gorau a dichonoldeb y digwyddiad.

*Sylwch fod Parc Gwledig Margam yn gweithredu strwythur prisio gwahanol. Cysylltwch â'r Tîm Digwyddiadau i gael rhagor o wybodaeth.

**SYLWER:** Bydd y ffioedd ar gyfer digwyddiadau masnachol a ffilmio yn ddibynnol ar ystod o newidynnau, sy'n cynnwys maint a graddfa'r digwyddiad, y mewnbwn y mae gofyn i staff Cyngor CNPT ei ddarparu ac ati. Mae pob digwyddiad yn wahanol a chytunir ar ffi sefydlog gyda threfnwyr digwyddiadau masnachol cyn bod cais yn cael ei gyflwyno. Cynghorir trefnwyr digwyddiadau masnachol i gysylltu â'r Tîm Digwyddiadau ar y cyfle cyntaf.



Parêd Port Talbot

| Tabl 4: Ffioedd a Thaliadau ar Gyfer Digwyddiadau | | |
|---|---|---|
| **Y Math o Ddigwyddiad** | **Tâl £ Heb Gynnwys TAW** | **Nodiadau** |
| **Digwyddiadau Cymunedol Anfasnachol**<br>• Bach – o dan 100<br>• Canolig – 101-499<br>• Mawr – 500+ | • £25<br>• £50<br>• £100 | Byddai'n rhaid i'r trefnydd ddangos nad yw'r sefydliad/unigolyn yn gwneud elw ac na fydd nifer mawr o weithredwyr trydydd parti yn masnachu yn y digwyddiad. |
| **Digwyddiadau Cymunedol â Gweithgarwch Masnachol.**<br>• Canolig – 101-499<br>• Mawr – 500+ | • £150<br>• £300 | Lle bydd y digwyddiad yn cynnwys mwy na 33% o weithredwyr trydydd parti sy'n masnachu'n fasnachol. |
| **Digwyddiadau Masnachol, gan gynnwys, er enghraifft:**<br>• Ffeiriau Pleser a Syrcasau.<br>• Cyngerdd Uchel ei Broffil/Gŵyl Gerdd.<br>• Gŵyl Gerdd (bandiau teyrnged, proffil isel).<br>• Digwyddiadau Chwaraeon.<br>• Gwyliau Bwyd a Diod/â Thema. | Cytunir ar ffi sefydlog fesul achos. | Mae hyn yn dibynnu ar leoliad y safle, maint y digwyddiad a'r galw am gyfraniad staff CBSCNPT.<br><br>Bydd angen darparu blaendal o 10% wrth gyflwyno'r cais. |
| **Blaendal Gwaith Adfer** | Mae blaendaliadau yn dechrau o £1,000, yn dibynnu ar faint a graddfa'r digwyddiad, nifer y mynychwyr, natur a hyd y gweithgareddau, a faint o seilwaith a osodir. Mewn achosion o ddifrod sylweddol i dir y cyngor, cymerir camau i adennill costau llawn y gwaith adfer. | |

| Tabl 4: Ffioedd a Thaliadau ar Gyfer Digwyddiadau | | |
|---|---|---|
| **Y Math o Ddigwyddiad** | **Tâl £ Heb Gynnwys TAW** | **Nodiadau** |
| **Ffilmio**<br><br>• Ffilmio Masnachol ar gyfer Cynhyrchiad Mawr.<br>• Ffilmio Masnachol ar gyfer Cynhyrchiad Bach.<br>• Sefydliad nid-er-elw (ffi ostyngol).<br>• Ffilmio gan Fyfyrwyr (dim ffi). | Cytunir ar ffi sefydlog fesul achos. | Mae hyn yn dibynnu ar y lleoliad ffilmio, unrhyw darfu ar gyfleusterau lleol, llogi mannau cynnal a'r galw am gyfraniad staff CBSCNPT.<br><br>Ni chodir ffioedd am waith ffilmio gan fyfyrwyr, gweler Adran 6. |
| **Cau Ffyrdd**<br><br>Cais am Orchymyn Rheoleiddio Traffig Dros Dro. | Digwyddiadau masnachol – dim ffi.<br><br>Digwyddiadau masnachol – adenillir costau llawn amser y staff, bydd y costau yn dechrau o £500, cytunir ar ffi sefydlog cyn i'r cais gael ei gyflwyno.<br><br>Codir ffi ychwanegol o £100 ar geisiadau hwyr. | Bydd gofyn talu costau ychwanegol ar gyfer personél cymwys i osod yr arwyddion cau ffyrdd, rheoli'r gwaith o gau ffyrdd a chreu cynllun rheoli traffig ar gyfer cau'r ffordd. Cysylltwch â'r Tîm Digwyddiadau i gael cyngor ynghylch y dewisiadau. |
| **Atal dros dro gynlluniau talu ac arddangos ar y stryd/mewn meysydd parcio.** | Bydd y pris yn dibynnu ar y gofynion a'r meysydd parcio penodol fydd yn cau. | Bydd y pris yn cynnwys asesu'r incwm a gollir ynghyd ag ad-dalu unrhyw gostau rhesymol y bydd y cyngor, a busnesau cyfagos o bosib, yn eu hwynebu yn sgîl atal trefniadau parcio ceir dros dro yn y lleoliad a enwir yn y cais. |

### Blaendaliadau a Ffioedd Safle

Gellir codi blaendal gwaith adfer ar drefnydd y digwyddiad i dalu am unrhyw ddifrod posibl i'r safle. Rhaid talu'r blaendal hwn o leiaf bedair wythnos cyn y digwyddiad. Rhaid talu'r holl ffioedd safle cyn pen 14 diwrnod wedi i gymeradwyaeth ffurfiol i'r digwyddiad ddod i law. Ni chaiff y trefnydd fynediad i dir y cyngor nes bod y ffioedd llogi a'r blaendal wedi'u talu.

Bydd unrhyw ffioedd a thaliadau sydd heb eu talu yn arwain at wrthod caniatâd i'r trefnydd gynnal unrhyw ddigwyddiadau yn y dyfodol.

Codir blaendal ychwanegol ar drefnwyr digwyddiadau am fenthyca allweddi sy'n rhoi mynediad i safle digwyddiad ar dir y cyngor. Mae gofyn talu o leiaf £100 o flaendal am yr holl allweddi a fenthycir gan y cyngor. Bydd aelod o'r Tîm Digwyddiadau yn llenwi ac yn llofnodi ffurflen rhoi allwedd pan gaiff allweddi eu rhoi a'u dychwelyd.

Cyfrifoldeb trefnydd y digwyddiad yw gwirio bod yr holl allweddi'n gweithio cyn y digwyddiad. Caiff y trefnydd drefnu i gasglu'r allweddi ddim mwy na 5 diwrnod cyn y digwyddiad a rhaid iddo drefnu i ddychwelyd yr allweddi ar y diwrnod gwaith cyntaf wedi'r digwyddiad. Ni chaiff trefnwyr digwyddiadau na neb sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad wneud copïau o'r allweddi maen nhw eu benthyg.

### Canslo Hwyr, Cau digwyddiad ac Ad-daliadau

Mae'r cyngor yn cadw'r hawl i ganslo neu gau digwyddiad os bernir bod angen gwneud hynny. Mae enghreifftiau yn cynnwys y canlynol, ond heb eu cyfyngu i hynny:

- Mae'r safle wedi mynd yn soeglyd neu bernir y byddai cynnal y digwyddiad yn achosi difrod i'r safle na ellid ei atgyweirio yn rhesymol (y tu hwnt i'r lefel mae unrhyw flaendal safle yn ei gwmpasu).
- Mae ffioedd, taliadau a blaendaliadau heb eu talu.
- Nid yw trefnydd y digwyddiad wedi cyflwyno'r wybodaeth ofynnol i'r cyngor erbyn y dyddiad a bennwyd.
- Unrhyw amgylchiadau eithriadol neu amgylchiadau eraill na ellir eu rhagweld, megis tywydd garw neu yn dilyn cyfarwyddyd/arweiniad y llywodraeth/iechyd cyhoeddus.
- Torri amodau iechyd a diogelwch neu bryderon ynghylch lles y cyhoedd cyn ac yn ystod y digwyddiad.
- Diffyg cydymffurfiaeth ag amodau neu ofynion y cyngor.
- Diffyg cydymffurfiaeth gan drefnydd y digwyddiad neu dorri rheolau yn ymwneud â'r gweithdrefnau neu'r wybodaeth a nodwyd ar y ffurflen gais, yn yr asesiad risg neu yn y cynllun rheoli digwyddiad.

Ni fydd y cyngor yn atebol am unrhyw gostau y gallai trefnydd y digwyddiad eisoes fod wedi mynd iddynt, cyn/yn ystod/ar ôl y digwyddiad, mewn perthynas â'r uchod.

Pan fydd digwyddiad yn cael ei ganslo, heb unrhyw fai ar y trefnydd, a hynny o leiaf 14 diwrnod cyn dyddiad y digwyddiad, bydd pob ffi/tâl/ blaendal yn cael eu had-dalu'n llawn.

Os bydd trefnydd am ganslo digwyddiad, rhaid iddynt gysylltu â ni o leiaf 14 diwrnod cyn y digwyddiad. Rydym yn cadw'r hawl o dan yr holl amgylchiadau i godi'r ffi weinyddol ar gyfer y digwyddiad.

# 09. Polisi Iechyd a Diogelwch Digwyddiadau

## Datganiad Polisi

Mae'n hanfodol bwysig bod digwyddiadau'n gweithredu'n ddiogel ac mae angen i drefnydd y digwyddiad a'r cyngor roi ystyriaeth flaenllaw i'r mater hwn.

Mae'r risgiau a'r gofynion i reoli digwyddiad yn ddiogel yn amrywio, ond lle bo hynny'n briodol, bydd y canlynol yn rhan ofynnol o'r broses ymgeisio lawn.

Gofynion cyffredinol ar gyfer trefnydd y digwyddiad:

## Asesiad Risg (AR)

Mae gofyn llunio asesiad risg tra ystyriol a chadarn ar gyfer pob digwyddiad ar ein tir. Rhaid i'r AR amlygu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad a dangos sut y cânt eu lliniaru a'u lleihau i lefel dderbyniol.

## Cynllun Rheoli Digwyddiad (EMP)

Bydd gofyn blaengynllunio'n sylweddol ar gyfer digwyddiadau mawr a phwysig a dylai'r asesiad risg gael ei lunio gan berson cymwys. Dylai'r asesiad fod yn rhan o Gynllun Rheoli Digwyddiad ehangach.

Dogfen ddiogelwch yw'r Cynllun Rheoli Digwyddiad, y dylid ei ysgrifennu ar y cyd â'r AR a'i gyflwyno i'w adolygu gyda ffurflen gais y digwyddiad. Mae'r EMP yn manylu ar holl agweddau diogelwch a gweithredol y digwyddiad o'r cyfnod gosod i'r cyfnod dad-rigio. Mae rheoliadau Iechyd a diogelwch yn berthnasol i ddigwyddiadau, a chyfrifoldeb trefnydd y digwyddiad yw sicrhau bod yr EMP yn cydymffurfio'n ddiwyro â'r holl reoliadau ac yn rhoi sylw priodol iddynt.

Rhaid i bob digwyddiad gyflwyno EMP i'w adolygu gan ein swyddogion/adrannau perthnasol. Bydd y SAG yn cynnal dadansoddiad ychwanegol o'r EMP ar gyfer digwyddiadau sy'n cynnwys mwy na 500 o fynychwyr a/neu gau ffyrdd neu weithgareddau uwch eu risg.

Bydd hyd a chymhlethdod yr EMP yn amrywio yn ôl maint a natur y digwyddiad.

Mae'r isod yn amlinelliad rhesymol o'r meysydd y dylai digwyddiad ar raddfa fawr roi sylw iddynt, ond nid yw'n cynnwys popeth:

- Manylion stiwardiaid a swyddogion diogelwch, gan gynnwys rolau, hyfforddiant a chynllun lleoliad.
- Rheoli traffig, gan gynnwys parcio, cerbydau ar y safle a cherbydau sy'n dod i mewn ac allan.
- Manylion am gau ffyrdd.
- Manylion cyswllt allweddol.
- Y trwyddedau sy'n ofynnol.
- Gweithdrefnau/darpariaeth iechyd a diogelwch.
- Goruchwyliaeth feddygol a chymorth cyntaf.
- Gweithdrefnau a pholisi diogelu.
- Diogelwch tân ac asesiad risgiau tân.
- Rheoli tyrfa.
- Rheoli gwastraff.
- Cynllun/cynlluniau safle.
- Cynlluniau wrth gefn (gan gynnwys canslo a lleihau).
- Cynllun ymadael mewn argyfwng.
- Amserlen a rhaglen ddigwyddiadau.
- Manylion y ffynonellau pŵer/generaduron.
- Manylion yr adeileddau dros dro.
- Manylion arlwywyr, masnachwyr a chyflenwyr y digwyddiad gan gynnwys cofnodion mesurau rheoli diogelwch bwyd.
- Stondinau/standiau a gweithgareddau.
- Cynllun rheoli sŵn.
- Cynllun cyfathrebu.
- Prawf ADIPS (gweler y rhestr dermau ar gyfer ffeiriau pleser a syrcasau yn unig).
- Darparu cyfleusterau toiled.

Gall peidio â darparu'r holl wybodaeth angenrheidiol yn y Cynllun Rheoli Digwyddiad olygu na chaiff y digwyddiad ei gymeradwyo. Cynghorir trefnwyr digwyddiadau i ddefnyddio'r adnoddau a'r canllawiau sydd ar gael, megis Purple Event Safety Guide.

## Trwyddedau

Cyfrifoldeb trefnydd y digwyddiad yw sicrhau ei fod wedi cael yr holl awdurdodiadau a thrwyddedau cywir o fewn yr amserlenni perthnasol gan ein hadran drwyddedu.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan drwyddedu y cyngor.

**Tabl 5 – Gwybodaeth am drwyddedau**

| Math | Dyddiad Cau ar gyfer Ceisiadau | Gwybodaeth i'w Chyflwyno | Ffi |
|---|---|---|---|
| **Trwydded Mangre (Alcohol a/neu adloniant)** | O leiaf 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad, cynghorir ymgeiswyr i gysylltu â'r adran drwyddedu ag amlinelliad o fanylion eu digwyddiad arfaethedig. | • Cais am drwydded mangre.<br>• Cynllun y fangre.<br>• Cydsyniad goruchwyliwr y fangre.<br>• Tystiolaeth i ategu'r cais (dewisol).<br>• Ffi. | Mae'r ffioedd yn amrywio o gais i gais, edrychwch ar y dudalen ffioedd trwyddedu ar wefan y cyngor i gael rhagor o wybodaeth. |
| **TENs (Hysbysiad Digwyddiadau Dros Dro)**<br>**(Alcohol a/neu adloniant, ar gyfer digwyddiadau lle bydd llai na 499 o bobl yn bresennol)** | Dim hwyrach na 10 diwrnod gwaith cyn dyddiad y digwyddiad. | • Ffurflen gais.<br>• Ffi. | £21 |
| **Masnachu ar y Stryd**<br>**(Gwerthu lluniaeth/nwyddau)** | O leiaf 2 fis cyn dyddiad y digwyddiad, cynghorir ymgeiswyr i gysylltu â'r adran drwyddedu i drafod unrhyw fasnachwyr a fydd yn bresennol yn y digwyddiad. | • Ffurflen gais.<br>• Ffi. | Mae'r ffioedd yn amrywio o gais i gais, edrychwch ar y dudalen ffioedd trwyddedu ar wefan y cyngor i gael rhagor o wybodaeth. |
| **Hawlen casgliadau stryd/loterïau**<br>**(Casgliadau elusennol a chodi arian cyffredinol)** | O leiaf 2 fis cyn dyddiad y digwyddiad, cynghorir ymgeiswyr i gysylltu â'r adran drwyddedu i drafod unrhyw weithgareddau codi arian yn ystod y digwyddiad. | • Ffurflen gais. | Dim ffi. |

### Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus

Rhaid i drefnwyr digwyddiadau fodloni'r gofynion canlynol:

- Darparu tystiolaeth o yswiriant indemniad gwerth £5 miliwn. Fodd bynnag, bydd y Tîm Digwyddiadau yn ymgynghori â'n tîm yswiriant a gall fod angen yswiriant gwerth o leiaf £10 miliwn ar rai digwyddiadau penodol.
- Rhaid i'r yswiriant gwmpasu holl ddiwrnodau gosod a chau'r digwyddiad.
- Cyfrifoldeb trefnydd y digwyddiad yw sicrhau bod yswiriant cyfredol angenrheidiol (indemniad gwerth £5 miliwn o leiaf) gan holl gyflenwyr, masnachwyr ac arddangoswyr y digwyddiad.
- Yn achos digwyddiadau sy'n cynnwys cau ffyrdd, bydd y cyngor yn mynnu yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gwerth £10 miliwn.

### Parcio a Rheoli Traffig

Caiff trefnwyr digwyddiadau wneud cais am leoedd mewn meysydd parcio sy'n eiddo i'r cyngor ar gyfer eu digwyddiad. Mae'n bosibl y codir tâl, i gwmpasu'r refeniw a gollir, am neilltuo lleoedd parcio i ddigwyddiad yn ein meysydd parcio talu ac arddangos neu unrhyw ardal a reoleiddir ar y briffordd.

Cyfrifoldeb trefnwyr y digwyddiad yw rheoli a stiwardio'r lleoedd parcio a symudiadau cerbydau ar hyd cyfnod gosod a dad-rigio'r digwyddiad.

Bydd angen i drefnydd y digwyddiad ddarparu cynllun rheoli traffig sy'n dangos y llwybr a ddilynir gan draffig y digwyddiad yn ystod y cyfnod gosod a dad-rigio. Bydd symudiadau traffig yn ystod digwyddiad yn cael eu cadarnhau fesul achos.

Rhaid i drefnwyr digwyddiadau barchu defnyddwyr eraill y maes parcio a pheidio â rhwystro'r ffordd i mewn i'r cyfleuster neu i leoedd parcio unigol neu allan ohonynt.

### Cau Ffyrdd a Diogelwch Priffyrdd

Mae'n bosib y bydd angen i drefnwyr digwyddiadau gyflwyno cais am gau ffordd.

Er mwyn cau ffyrdd, bydd angen anfon cais atom:

- Mae angen gorchymyn rheoleiddio traffig dros dro yn gyffredinol lle mae risg o berygl, er mwyn cynnal diogelwch priffyrdd. Ym mhob achos, dylai trefnydd y digwyddiad ymgynghori â ni ar y cyfle cyntaf i drafod y llwybr mwyaf priodol i'w gymryd o ran cau ffyrdd a diogelwch priffyrdd. Gellir codi tâl am geisiadau i gau ffyrdd.
- Rhaid cyflwyno ceisiadau am gau ffordd o leiaf 8 wythnos cyn y digwyddiad. Byddwn yn cysylltu â threfnydd y digwyddiad cyn gynted ag y bydd penderfyniad wedi'i wneud.

## Diogelu

Mae gennym ddyletswydd gofal i sicrhau bod pob plentyn ac oedolyn agored i niwed yn cael eu hamddiffyn wrth i ni gyflwyno ein gwasanaethau, gan gynnwys yn ystod digwyddiadau. Disgwylir i drefnwyr digwyddiadau roi sylw i'n polisi diogelu yn eu cynlluniau gweithredol a'u cynlluniau rheoli digwyddiad.

Os bwriedir defnyddio'r safle ar gyfer adloniant plant, rhaid i drefnydd y digwyddiad sicrhau goruchwyliaeth ddigonol gan oedolion â phrofiad o reoli plant a gofalu amdanynt, sydd â'r gwiriad DBS angenrheidiol er mwyn gweithio gyda phlant/phobl agored i niwed.

Yn nogfennau'r digwyddiad, rhaid i'r trefnydd fanylu ar y prosesau fydd ar waith i ddiogelu plant/oedolion agored i niwed. Cynghorir trefnydd y digwyddiad i gymryd yr wybodaeth ganlynol i ystyriaeth:

- Darpariaeth ar gyfer plant/oedolion agored i niwed coll.
- Darparu cyfleusterau newid babanod.
- Darpariaeth eiddo coll.
- Manylion am wiriadau DBS staff y digwyddiad.
- Manylion y weithdrefn ar gyfer plentyn neu oedolyn agored i niwed coll, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer cofnodi hynny.
- Nodi unigolyn penodol a fydd yn bresennol yn y digwyddiad fydd yn gallu delio â chwynion gan fynychwyr y digwyddiad.
- Polisi dau oedolyn i un plentyn, er mwyn sicrhau bod mwy nag un aelod o staff neu wirfoddolwr yn goruchwylio plentyn ar unrhyw adeg.
- Y cyfyngiadau oedran y dylid eu cymhwyso i rai digwyddiadau/gweithgareddau.

## Diogelwch Bwyd

Pan ddefnyddir arlwywyr masnachol yn rhan o ddigwyddiad, rhaid i'r trefnwyr fodloni'r gofynion canlynol:

- Sicrhau bod sgôr hylendid bwyd pob arlwywr yn 3 (cyffredinol foddhaol) neu'n uwch.
- Rhoi rhestr o'r arlwywyr, gan gynnwys yr holl waith papur cysylltiedig, i'r Swyddog Digwyddiadau, o leiaf bedair wythnos cyn y digwyddiad, er mwyn caniatáu digon o amser ar gyfer gwiriadau tîm iechyd yr amgylchedd.
- Trefnydd y digwyddiad fydd yn gyfrifol am dynnu unrhyw arlwywyr sy'n methu bodloni'r safon hon oddi ar y rhestr. Gall ein cynrychiolwyr wirio'r wybodaeth hon ar hyd y digwyddiad.
- Disgwylir i drefnwyr digwyddiadau roi blaenoriaeth i ddefnyddio busnesau lleol wrth ddarparu bwyd/arlwyo yn eu digwyddiad.

O dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 rhaid bod arlwywyr proffesiynol wedi'u cofrestru ac wedi cael hyfforddiant hylendid bwyd; mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os darperir bwyd am ddim. Dylid darparu amlinelliad o'r math o arlwyo a'r cyfleusterau cyn y digwyddiad.

Nid oes proses gymeradwyo ffurfiol ar gyfer arlwyo mewn digwyddiadau cymunedol ar raddfa fach; fodd bynnag, anogir trefnwyr i gysylltu â Thîm Diogelwch Bwyd y cyngor yma [food@npt.gov.uk](mailto:food@npt.gov.uk) i gael cyngor a chymorth.

## Rhoi Gwybod am Ddamweiniau a Digwyddiadau

Yn rhan o'r EMP, ac yn unol â'r rheoliadau Iechyd a Diogelwch, rhaid bod gan bob trefnydd digwyddiad weithdrefn ar gyfer cofnodi damweiniau/digwyddiadau neu ddamweiniau fu bron â digwydd yng nghyswllt y digwyddiad (gan gynnwys y cyfnod gosod/dad-rigio) a rhaid iddynt roi'r wybodaeth hon i'r Tîm Digwyddiadau ar y cyfle cyntaf.

Os bydd unrhyw ddamweiniau difrifol neu ddigwyddiadau sy'n arwain at ymweliadau â'r ysbyty, rhaid i drefnydd y digwyddiad roi gwybod ar unwaith i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r cyngor– Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013 (RIDDOR).



Gŵyl Bwyd a Diod Castell-Nedd

# 10. Polisi Amgylcheddol

Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn sylweddoli bod angen mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a hynny ar frys, ac mae'n benderfynol o ymrwymo i wneud hynny'n gyflym trwy ei Strategaeth Dadgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy (DARE).

Mae gofyn i drefnwyr digwyddiadau ddweud wrthym ym mha ffyrdd maen nhw'n lleihau effaith eu gweithgareddau gweithredol yn y meysydd canlynol:

- ✓ Defnyddio ynni a dŵr.
- ✓ Trafnidiaeth a theithio.
- ✓ Ffynonellau bwyd, diodydd a chaffael cyflenwadau eraill.
- ✓ Gwastraff ac ailgylchu.
- ✓ Amddiffyn y tirlun a bywyd gwyllt rhag llygredd, gan gynnwys plastigion a microblastigion.

Enghreifftiau o sut gellir cyflawni hynny:

- Defnyddio cwpanau diod y mae modd eu hailddefnyddio, megis cynlluniau blaendal ar gyfer cwpanau plastig.
- Osgoi pecynnu untro, tafladwy, e.e. pecynnau pupur a halen ac ati.
- Darparu dŵr yfed am ddim. Mae'n bosib y gall yr awdurdod dŵr lleol eich helpu i ddarparu gorsafoedd dŵr yfed yn eich digwyddiad.
- Darparu cyfleusterau gwastraff ac ailgylchu.
- Defnyddio cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio neu eu hailgylchu ar gyfer deunyddiau arddangos a hyrwyddo, ailddefnyddio baneri trwy newid dyddiadau, chwilio am ddulliau amgen o glymu ceblau.
- Defnyddio generaduron a yrrir gan fatris trydan glân neu fiodanwydd.
- Defnyddio cerbydau trydan mewn digwyddiadau.

**SYLWER:** o Hydref 2023 ymlaen, fel rhan o weithredu Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023, **ni chaniateir defnyddio cynhyrchion plastig untro**. Mae hyn yn cwmpasu platiau, gan gynnwys platiau ag arwyneb plastig laminedig, cyllyll a ffyrc, troyddion diod, ffyn balwnau, ffyn cotwm â choesynnau plastig, gwelltynnau yfed plastig (gydag eithriadau ar gyfer pobl sydd angen bwyta neu yfed yn ddiogel). Yn ogystal, mae'n cynnwys cynwysyddion cludfwyd a chwpanau a wnaed o bolystyren ehangedig neu bolystyren allwthiedig ewynnog.

Wrth gynllunio digwyddiadau, anogir trefnwyr i ddatblygu cynlluniau trafnidiaeth a theithio sy'n hyrwyddo dulliau teithio mwy cynaliadwy (cerdded, beicio, bws, coets, trên) gyda'r nod o annog cynifer o staff a mynychwyr â phosibl i deithio fel hyn, er mwyn lleihau eu hôl troed carbon.

# 11. Polisi Datblygu a Chefnogi Digwyddiadau

Mae'r cyngor wedi ymrwymo i gefnogi trefnwyr digwyddiadau trwy gynnig cyngor ac arweiniad ar hyd y broses ymgeisio. Ni allwn ddweud wrthych sut mae trefnu eich digwyddiad, ond bydd ein tîm Digwyddiadau yn cydgysylltu â'u cydweithwyr yn y cyngor a'n partneriaid i chwilio am atebion er mwyn goresgyn unrhyw heriau logistaidd.

Yn ogystal, gall y Tîm Digwyddiadau gyfeirio trefnwyr at ffynonellau cyllid posibl i gefnogi digwyddiadau newydd a rhai sydd eisoes yn bodoli.

Rydym yn barod iawn i wrando ar syniadau newydd am ddigwyddiadau neu ddatblygu digwyddiadau sydd eisoes yn bodoli a byddwn yn darparu adborth am gynnwys, logisteg, cyllid, cyfleoedd masnachol a phartneriaid posib.

Byddwn hefyd yn trefnu diwrnodau agored ar gyfer trefnwyr digwyddiadau cymunedol lle cynigir hyfforddiant a chyngor ynghylch ystod o feysydd, o lunio asesiad risg a datblygu cynllun rheoli digwyddiad i ddeall y ddeddfwriaeth bresennol a deddfwriaeth newydd ynghylch defnyddio'r briffordd gyhoeddus a'r angen posibl am fesurau gwrthderfysgaeth.

Yn ogystal, byddwn yn adolygu ein prosesau, ein gweithdrefnau, a'n polisïau corfforaethol er mwyn sicrhau bod ein sir yn lle croesawgar gydag ystod amrywiol o ddigwyddiadau a gwyliau. Bydd datblygu Strategaeth Digwyddiadau yn cynnig fframwaith ac ymrwymiad clir ar gyfer digwyddiadau ac yn gweithio gyda chymunedau lleol, trefnwyr digwyddiadau, hyrwyddwyr a sefydliadau creadigol.

# 12. Digwyddiadau a Drefnir gan y Cyngor

Dim ond nifer cyfyngedig o ddigwyddiadau a drefnir gan y cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys Ffair Castell-nedd, Gŵyl Bwyd a Diod Castell-nedd a Pharêdau Sul y Cofio yng Nghastell-nedd Port Talbot. Ar ben hynny, cynhelir gweithgareddau a digwyddiadau awyr agored ym Mharc Margam, yn enwedig yn ystod y gwyliau ysgol a thua adeg y Nadolig.

Drwy ddatblygu'r Strategaeth Digwyddiadau, bydd y Cyngor yn chwilio am bartneriaid masnachol a chymunedol i gyflwyno digwyddiadau newydd a manteisio hyd yr eithaf ar gyfleoedd i sicrhau grantiau yn y dyfodol oddi wrth y Llywodraeth a chorfforaethau mawr, er mwyn cefnogi digwyddiadau newydd a datblygu digwyddiadau sydd eisoes yn bodoli.

# 13. Gofynion Rheoleiddiol Eraill ac Arfer Gorau

Wrth drefnu digwyddiad, bydd angen i drefnwyr ystyried y materion isod. Ni fydd popeth yn berthnasol i bob digwyddiad, ond bydd angen i drefnwyr ystyried yr hyn sy'n berthnasol i'w digwyddiad hwy a gofyn am arweiniad os byddant yn ansicr, gan fod nifer o'r materion hyn yn ofynion statudol:

## Mesurau Gwrthderfysgaeth

Mae'r bygythiad terfysgol i lawer o ddigwyddiadau awyr agored yn isel iawn ac yn gofyn am y mesurau lliniaru lleiaf posibl, ond mae hyn yn fater y mae angen ei asesu yn yr un modd ag unrhyw risg iechyd a diogelwch arall. Bydd y mesurau a gyflwynir ar gyfer digwyddiad yn gymesur, ac yn cymryd ffactorau megis maint y digwyddiad, pwy sy'n ei fynychu a natur y gweithgareddau i ystyriaeth. Er enghraifft, bydd ffair gymunedol sy'n denu 300 o bobl ar unrhyw un adeg yn gofyn am lawer llai o fesurau lliniaru o gymharu â gŵyl neu gyngerdd ar gyfer rhai miloedd o bobl, gan gynnwys sêr rhyngwladol a gwesteion pwysig iawn.

Mae'n bosib y bydd deddfwriaeth newydd, fydd yn dwyn yr enw Deddf Martyn, yn cael ei chyflwyno yn 2024. Dylai trefnwyr digwyddiadau fod yn ymwybodol o'r gofynion a'r mesurau allweddol y gellid disgwyl eu cyflwyno, ond bydd y rhain yn gymesur ac yn ymarferol, yn dibynnu ar faint y digwyddiad a drefnir. Cymesuredd yw'r ystyriaeth sylfaenol yn y ddeddfwriaeth hon. Gellir gweld rhagor o wybodaeth ar wefan Protect UK. Os bydd unrhyw ymholiadau pellach, cysylltwch â'r Tîm Digwyddiadau.

## Hygyrchedd

Mae'n orfodol i bob trefnydd digwyddiad gydymffurfio â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, beth bynnag fydd maint y digwyddiad, a boed tâl mynediad neu beidio. Gan hynny, mae gofyn iddynt feddwl ymlaen llaw a gwneud addasiadau rhesymol er mwyn sicrhau na fydd mynychwyr (neu ddarpar fynychwyr) anabl o dan anfantais sylweddol o gymharu â phobl heb anabledd.

Mae ystyr eang i "anabledd". Fe'i diffinnir fel nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar allu rhywun i gyflawni gweithgareddau beunyddiol arferol.

Bydd ystyr addasiad “rhesymol” yn dibynnu ar yr holl amgylchiadau, gan gynnwys cost yr addasiad, y budd y gallai ei gynnig i fynychwyr eraill (er enghraifft, gallai rampiau fod yn ddefnyddiol hefyd i fynychwyr â phlant ifanc), yr adnoddau sydd gan y sefydliad a pha mor ymarferol yw'r newidiadau.

Gall addasiadau rhesymol gynnwys y canlynol ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i hynny:

- Gosod llwybrau pren haenog dros dro ar dir anwastad neu dir gwlyb.
- Gosod rampiau ar bwys stepiau.
- Darparu toiledau hygyrch â goleuadau digonol ar gyfer pobl ag amhariad ar y golwg.
- Arddangos arwyddion rhybuddio os bwriedir defnyddio goleuadau strôb.
- Cynllunio dull o gyfathrebu â mynychwyr byddar neu drwm eu clyw mewn argyfwng.

Dylai addasiadau rhesymol gael eu rhoi ar waith cyn i'r digwyddiad ddechrau. Ni ddylai trefnwyr aros nes bod rhywun anabl yn profi trafferthion yn ystod y digwyddiad, oherwydd gallai fod yn rhy hwyr i gyflwyno'r addasiad rhesymol bryd hynny.

## Hysbysebion

Fel rheol, bydd angen caniatâd ar gyfer hysbysebion ac arwyddion. Ni fyddai angen caniatâd ar gyfer hysbysiadau neu arwyddion dros dro y bwriedir eu bod yn hysbysebu digwyddiad lleol i godi arian at achosion da, megis ffair neu ras marathon noddedig.

Yn ogystal, bydd angen Caniatâd Adeilad Rhestredig er mwyn gosod atodiad neu hysbyseb ar adeilad rhestredig. Byddai'n well osgoi gosod hysbysebion ychwanegol ar adeiladau rhestredig.

Boed angen caniatâd ar gyfer hysbyseb neu beidio, rhaid i bob hysbyseb awyr agored gydymffurfio â phum amod safonol:

- Rhaid eu cadw'n lân ac yn daclus.
- Rhaid eu cadw mewn cyflwr diogel.
- Rhaid sicrhau caniatâd perchennog y safle lle cânt eu harddangos (mae hyn yn cynnwys yr Awdurdod Priffyrdd, os bwriedir codi arwydd ar dir priffordd).
- Rhaid iddynt beidio â chuddio neu rwystro dehongliad arwyddion swyddogol ffyrdd, rheilffyrdd, dyfrffyrdd neu awyrennau, na pheri bod defnyddio'r mathau hyn o gludiant yn beryglus fel arall.
- Rhaid eu gwaredu'n ddiogel ar gais yr awdurdod cynllunio.

## Polisi Cydraddoldeb

- Mae'r cyngor wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfle cyfartal ar gyfer y gymuned gyfan, gan gredu bod cymuned amrywiol yn gryfder sylweddol sy'n cyfrannu at ffyniant cymdeithasol ac economaidd yr ardal. Mae'r cyngor wedi ymrwymo i sicrhau na fydd yr un preswylydd nac ymwelydd â'r ardal yn cael ei drin yn annheg neu mewn modd gwahaniaethol anghyfreithlon a direswm.
- Ni fydd y cyngor yn caniatáu digwyddiadau y mae eu cynnwys a/neu gysylltiadau'r trefnwyr (agweddau negyddol, casineb hiliol, homoffobia, ac ati) yn peryglu ymrwymiad y cyngor i gyfle cyfartal.

## Cerbydau Brys

Mae'n hanfodol bwysig bod cerbydau brys yn gallu cael mynediad i'r safle bob amser. Ni fydd cyfyngu mynediad i gyfleusterau brys megis ysbytai a chanolfannau meddygol yn cael ei ganiatáu. Os cynhelir digwyddiad ar y briffordd, bydd modd defnyddio rhwystrau i gau'r ffordd a gosod byrddau a chadeiriau ac ati ar y briffordd, ar yr amod bod modd eu symud yn hwylus, pe bai angen, i ganiatáu mynediad brys.

## Diogelwch Ffyrdd

Fel y "person cyfrifol", bydd gofyn bod trefnydd y digwyddiad yn mynd ati i sicrhau a chynnal diogelwch tân. Rhaid i'r person cyfrifol gynnal asesiad risg a rhoi mesurau priodol ar waith i leihau'r risg i fywyd ac eiddo.

Byddai'n werth i drefnwyr digwyddiadau gysylltu â'r Awdurdod Tân ar y cyfle cyntaf.

## Adeileddau Dros Dro

Dylai trefnwyr digwyddiadau sy'n bwriadu codi adeileddau dros dro megis prif standiau, llwyfannau, tyrau goleuadau, sain neu dyrau rheoli, pebyll mawr a bach neu ganopïau gysylltu â'r Is-adrannau Rheoli Adeiladu/Strwythurau ymhell cyn y digwyddiad i ddarparu manylion digonol, gan gynnwys cynlluniau sy'n dangos ffurf yr adeileddau a manylion/cyfrifiadau adeiladu, i'w galluogi i wirio sefydlogrwydd strwythurol yr adeiledd.

Bydd yr is-adrannau Rheoli Adeiladu/Strwythurau yn gwirio'r wybodaeth a ddarparwyd ac yn cynnal archwiliadau er mwyn pennu sefydlogrwydd strwythurol unrhyw adeileddau dros dro sylweddol.

Mae Sefydliad Siartredig y Peirianwyr Strwythurol wedi llunio canllawiau cynhwysfawr ynghylch adeileddau dros dro.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Adran Rheoli Adeiladu y Cyngor yn y cyfeiriad building.control@npt.gov.uk.

## Cyfleusterau Toiled (Gan Gynnwys Hygyrchedd)

Mae gan drefnydd digwyddiad ddyletswydd i ddarparu toiledau digonol a hygyrch ar gyfer y digwyddiad. Gellir gweld canllawiau ar gymarebau'r nifer disgwyliedig o fynychwyr a'r ddarpariaeth doiledau yn The Purple Guide.

Yn achos digwyddiadau cymunedol ar raddfa fach mewn mannau lle mae toiledau cyhoeddus, bydd angen rhoi gwybod i'r cyngor am eich gofynion er mwyn iddynt drefnu estyniad i'r oriau agor, a gwaith glanhau ychwanegol. Codir tâl am y gwasanaeth hwn.




# Cysylltu â'r Tîm Digwyddiadau

I gael rhagor o gyngor cysylltwch â'r Tîm Digwyddiadau drwy e-bostio:

specialevents@npt.gov.uk

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council